

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig o'r enw Pwysau Costau Byw

Nodir isod yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad.

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau allanol i sicrhau bod data cadarn ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol yn cael eu casglu a'u cyhoeddi'n rheolaidd. Dylai ystyried ffyrdd arloesol o wneud prif ddata ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr, er enghraifft datblygu dangosfwrdd neu ddewisiadau eraill.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bynnag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Cyngor ar Bopeth i gyflwyno'r tueddiadau, y ddealltwriaeth a'r cynlluniau diweddaraf ar ddata costau byw i'n paneli defnyddwyr ystadegau ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Rydym wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau sampl fwy ar gyfer Cymru ar yr Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n sail i ystadegau swyddogol ar dlodi incwm ar gyfer y DU. Bydd hyn yn fodd i wneud gwaith dadansoddi manylach ar gyfer Cymru ynglŷn â materion sy'n ymwneud â thlodi ac agweddau ar gostau byw yn y dyfodol. Ers 2020 rydym wedi cyhoeddi data ar Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol, yn wreiddiol fel rhan o drosolwg o effeithiau COVID-19 ar gymdeithas, a byddwn yn parhau i ddiweddarau'r data hyn ar StatsCymru yn rheolaidd er mwyn rhoi cipolwg amserol ar yr argyfwng costau byw. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu dangosfwrdd data tlodi tanwydd a fydd yn ymgorffori data o ffynonellau mewnol ac allanol gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth ac Ofgem.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen dod â gwybodaeth allweddol ynghyd i wneud data perthnasol yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr, a bydd yn archwilio'r ffyrdd gorau o wneud hyn yn y dyfodol, fel drwy flog ein Prif Ystadegydd.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig ei Huned Data Cydraddoldeb, sicrhau bod data wedi'u dadgyfuno ar gostau byw ar gyfer Cymru ar gael yn rheolaidd, er mwyn gallu deall a rhoi sylw i effeithiau pwysau costau byw ar wahanol

grwpiau economaidd-gymdeithasol a nodweddion gwarchoddedig wrth wneud penderfyniadau polisi.

Ymateb: Derbyn

Nod cyffredinol Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru yw gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion â nodweddion gwarchoddedig a nodweddion cysylltiedig fel bod Llywodraeth Cymru yn llwyr ddeall y mathau o anghydraddoldeb ledled Cymru, eu lefel a'u heffaith. Un o flaenoriaethau'r Uned yw gwella'r data ar effaith pwysau costau byw ar bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae gwaith cwmpasu pellach yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn deall yn well sut y dylid casglu'r wybodaeth hon. Mae'n debygol o gynnwys dadansoddiad o'r data sydd eisoes ar gael, fel Arolwg Cenedlaethol Cymru, a'r Arolwg o Adnoddau Teulu a gynhelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn ogystal â gwaith ymchwil ansoddol sylfaenol, a fydd yn cynnwys pobl â phrofiad bywyd, er mwyn rhoi dealltwriaeth fanylach o'r pwysau a'u canlyniadau.

Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau sampl fwy ar gyfer Cymru ar yr Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n sail i ystadegau swyddogol ar dlodi incwm ar gyfer y DU. Bydd hyn yn fodd i wneud gwaith dadansoddi manylach ar gyfer Cymru ynglŷn â materion sy'n ymwneud â thlodi ac agweddau ar gostau byw yn y dyfodol. Yn benodol, bydd yn gwella'r sefyllfa bresennol drwy hwyluso mwy o ddadansoddiadau o dlodi incwm fesul aelwyd a nodwedd warchoddedig, gan gynnwys rhywfaint o groestoriadedd.

Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn ymrwymedig i barhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau ystadegol ar y rhaglen waith hon.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar ei dadansoddiad dosbarthiadol o bwy fydd yn elwa ar ei chymorth costau byw drwy gyhoeddi dadansoddiad o sut mae ei chynlluniau yn cefnogi grwpiau â nodweddion gwarchoddedig fel rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.

Ymateb: Derbyn

Byddai rhoi'r argymhelliad ar waith yn arwain at fanteision mawr ond ni allwn ymrwymo i wneud hyn ar unwaith nac yn llawn gan nad oes ffynonellau data addas ar gael ar hyn o bryd. Er mwyn gwella ffynonellau data a chael gafael ar rai newydd, mae'n debygol y bydd angen buddsoddiad sylweddol, ac nid yw cost hynny'n hysbys ar hyn o bryd. Felly, bydd angen rhoi'r argymhelliad ar waith yn raddol dros amser wrth i ddata ddod ar gael.

Goblygiadau ariannol – Fel uchod.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data ar y nifer sy'n hawlio'r Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf cyn gynted â phosibl, wedi'i ddadansoddi fesul awdurdod lleol, ac yn ôl nodwedd warchoddedig lle bo modd. Dylai hefyd fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi data ar fesurau cymorth costau byw eraill presennol ac yn y dyfodol unwaith y bydd ar gael.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi data Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf wedi'u dadansoddi fesul awdurdod lleol yn ystod hydref 2022. Ni chasglwyd data ar nodweddion gwarchoddedig gan nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn angenrheidiol ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Mae data eisoes yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar nifer y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wneir o'r Gronfa Cymorth Dewisol, a byddwn yn cyhoeddi data o leiaf unwaith y flwyddyn pan fyddant ar gael i ni.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o'i chynlluniau cymorth costau byw cynnar fel y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, a nodi sut mae hyn wedi llywio datblygiad cynlluniau dilynol.

Ymateb: Derbyn

Cafodd Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf 2021/22 ei ddatblygu yn dilyn cyllid canlyniadol o Gronfa Gymorth i Aelwydydd Llywodraeth y DU, gyda chyllid atodol gan Lywodraeth Cymru. Rhagwelwyd mai taliad untro fyddai'r cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau ariannol uniongyrchol, byrdymor sy'n wynebu aelwydydd.

O ganlyniad i hynny, ni wnaed trefniadau ffurfiol i werthuso'r cynllun. Fodd bynnag, bu adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r cynllun cyntaf yn sail i ddatblygu Cynllun Cymorth Tanwydd dilynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Dyma'r prif wersi:

1. Roedd ein meini prawf cymhwyso blaenorol yn golygu bod lawer o aelwydydd incwm isel nad oeddent yn gymwys i gael cymorth. Yn dilyn adborth gan ein rhanddeiliaid, rydym wedi ymestyn y meini prawf cymhwysedd er mwyn sicrhau bod y cymorth hanfodol hwn yn cefnogi aelwydydd mwy agored i niwed.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cefnogi carfan ehangach o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau

- Mesurau er mwyn helpu aelwydydd i dalu costau ynni a drosglwyddwyd
- Cymorth i aelwydydd sy'n defnyddio tanwydd oddi ar y grid.

2. Mae'r cyfnod talu ar gyfer cynllun 2022/23 wedi cael ei ymestyn er mwyn rhoi cyfle ehangach i unigolion hawlio a mwy o amser i awdurdodau lleol adnabod preswylwyr cymwys a phrosesu taliadau.

3. Yn dilyn adborth bod angen cyfathrebu'n well, drwy gydol mis Ionawr 2022 bu modd inni addasu ein hymgyrch 'hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi' i hyrwyddo ein cynllun cymorth tanwydd drwy hysbysebu ar y teledu, ar y radio ac yn y cyfryngau cymdeithasol a arweiniodd at gynnydd yn nifer y bobl sy'n ei hawlio.

4. Er mwyn symleiddio'r broses i dderbynwyr, rydym yn ystyried sut i'w gwneud yn haws i bobl sy'n hysbys i awdurdodau lleol ac sy'n gymwys i gael y taliad wneud hynny heb orfod gwneud cais uniongyrchol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar lwyddiant yr ymgyrch hawlio budd-dal 'Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi'. Dylai nodi manylion y gweithgarwch hyrwyddo a gynllunnir ar gyfer yr ymgyrch hon, a blaenoriaethu cyllid ac adnoddau i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl dros y misoedd nesaf.

Ymateb: Derbyn

Drwy ei hymrwymiad hirdymor i ariannu gwasanaethau cynghori, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pobl yn cael cymaint o incwm â phosibl. Er enghraifft, mae pawb sy'n ymwneud â gwasanaeth a ariennir gan Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru yn cael cynnig gwiriadau hawl i fudd-daliadau lles. Ers mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau'r Gronfa wedi helpu pobl i hawlio dros £65m o incwm ychwanegol.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fydd llawer o bobl nad ydynt yn hawlio arian y mae ganddynt hawl i'w gael yn ymgysylltu â gwasanaethau cynghori chwaith. Dyna pam y lanswyd ymgyrch Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi. Mae negeseuon creadigol yr ymgyrch wedi bod yn ffordd effeithiol o gyrraedd pobl i'w hannog i gael gwybod mwy am eu hawliau ariannol drwy gysylltu ag Advicelink Cymru.

Rydym yn parhau i rannu negeseuon yr ymgyrch drwy sianeli digidol. Hefyd, gan fod cyllid priodol wedi cael ei ddarparu, byddwn unwaith eto'n rhannu'r negeseuon drwy bob llwyfan yn ystod hydref/gaeaf 2022/23.

Mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn rhaid i bawb dan sylw roi blaenoriaeth i sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn hawlio budd-daliadau lles, nid dim ond Llywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth y DU wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'r holl fudd-daliadau

lles a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac ariannu'r gwasanaethau cynghori y mae eu hangen ar bobl er mwyn gallu defnyddio'r system nawdd cymdeithasol.

Goblygiadau ariannol – Er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau cynghorwyr budd-daliadau ar gael yn Advicelink Cymru i ddelio â'r ymateb a geir yn sgil yr ymgyrch, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei chyllid (ac wedi addasu cyllid arall at ddibenion gwahanol) o fewn y Gronfa.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r manylion a'r amserlenni ar gyfer y gwaith y bydd ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm yn ei wneud, ac ymrwmo i gyhoeddi unrhyw allbynnau.

Ymateb: Derbynn

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynyddu Incwm newydd wedi cael ei sefydlu, drwy uno'r Gweithgor Cynyddu Incwm a Hawlio Budd-daliadau a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddyledion gynt. Drwy uno'r ddau grŵp, gallwn ganolbwyntio ar aelwydydd yng Nghymru sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd mewn costau byw a'r rhai sy'n dal i ddelio ag effeithiau pandemig COVID-19, sef yr un bobl, fwy na thebyg.

Ein nod yw helpu pobl i gael gafael ar gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael a'u cefnogi wrth iddynt wneud hynny. Byddwn hefyd yn helpu'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd parhau i gyflawni eu hymrwymadau ariannol i ad-dalu dyledion a chwilio am lwybrau allan o ddyled. Mae copi o'r Cylch Gorchwyl wedi'i atodi.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 25 Mai 2022 a chynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Medi. Fel rhan o'n gwaith gyda'r grŵp, mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen unigol wedi cael eu sefydlu, ac mae un ohonynt yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar ddylunio a chyflawni system budd-daliadau i Gymru. Rydym yn rhagweld y caiff Siarter Budd-daliadau ei drafftio erbyn diwedd y flwyddyn.

Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen arall yn ceisio datblygu model cyflawni a fydd yn defnyddio'r ffynonellau data sydd ar gael gan awdurdodau lleol er mwyn anelu gybodaeth am Gredyd Pensiwn at aelwydydd a all fod ar eu colled.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gyflymu'r gwaith i ddod â chynlluniau cymorth prawf modd ar gyfer aelwydydd incwm isel at ei gilydd drwy system fudd-daliadau

Cymru. Rhaid i'r system newydd sicrhau mwy o gysondeb o ran darpariaeth awdurdodau lleol, a symud tuag at sefyllfa lle mae pobl sydd angen un math o gymorth yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i ffynonellau cymorth eraill y maent yn gymwys i'w cael.

Ymateb: Derby

Un o amcanion strategol y Cynllun Gweithredu Pwyslais ar Incwm a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 yw sicrhau bod teuluoedd yng Nghymru yn cael cymorth i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael. Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r Arweinyfr Arferion Gorau: Symleiddio Prosesau Ymgeisio ar gyfer Budd-daliadau a Weinyddir gan Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Mae'r arweinyfr yn ystyried beth yn rhagor y gallwn ei wneud i symleiddio'r prosesau ymgeisio ar gyfer budd-daliadau lles datganoledig er mwyn i bobl allu wneud cais am gymorth yn haws ac yn gyflymach.

Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn profi i ba raddau y mae'r arferion gorau yn yr arweinyfr wedi cael eu mabwysiadu yng nghyd-destun y gwaith sylweddol y mae awdurdodau lleol wedi'i wneud i gefnogi cymunedau ac unigolion yn ystod pandemig COVID-19.

Un o'r gwersi a ddysgwyd wrth ddatblygu'r arweinyfr Arferion Gorau oedd cymhlethdod tirwedd Budd-daliadau Cymru a'r gwahanol ddulliau gweinyddu ym mhob awdurdod lleol, gan gynnwys rhwystrau sy'n ymwneud â TG.

Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i wella ei systemau prosesu, i sicrhau mwy o gysondeb ac i archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio pasbortau awtomatig lle bo hynny'n bosibl.

Goblygiadau ariannol – Mae partneriaid cyflawni awdurdodau lleol yn defnyddio systemau cyfrifiadurol gwahanol i weinyddu'r taliadau y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd newid i ddull 'pasbortau' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fuddsoddi'n ariannol yn eu systemau TG, ac efallai y bydd angen i rai awdurdodau lleol roi systemau TG newydd ar waith. Felly, bydd angen cadw'r newidiadau hyn yn rhesymol ymarferol a thalu'r costau o gyllidebau yn y dyfodol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu system fudd-daliadau Cymru, dylai

Llywodraeth Cymru weithio tuag at ddatblygu porth siop-un-stop lle gall aelwydydd ledled Cymru wneud cais yn uniongyrchol i'w hawdurdod lleol am y gwahanol gynlluniau prawf modd sydd ar gael.

Ymateb: Derby

Mae cael un porth lle y gall unigolyn gael gafael ar yr holl daliadau y mae'n gymwys i'w cael yn cynnig y posibilrwydd i bobl sydd â sgiliau digidol priodol ddilyn taith symlach sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gan rai awdurdodau lleol eisoes ddull siop un stop i'w trigolion gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys hawlio cymorth ariannol. Rhaid bod yn ofalus i osgoi datblygu a gweithredu porth newydd a all ddyblygu dulliau digidol y mae awdurdodau lleol eisoes yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau.

Byddwn yn archwilio'r gwaith o ddatblygu'r porth gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid ac yn penderfynu beth fyddai'r costau.

Goblygiadau ariannol – Er mwyn datblygu 'porth siop un stop', bydd angen buddsoddi mewn seilwaith TG newydd sy'n gallu cysylltu'n effeithiol â'r systemau TG sydd gan bartneriaid cyflawni awdurdodau lleol. Dylai unrhyw ateb gynnig y gwerth gorau am arian gyda'r costau'n cael eu talu o gyllidebau a ddyrennir yn y dyfodol.

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu asesiad o ba mor llwyddiannus y mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pecyn cymorth arfer gorau hyd yn hyn, ac ystyried cymryd camau pellach megis datblygu canllawiau statudol os oes tystiolaeth i wneud hynny.

Ymateb: Derby

Ers ei lansio ym mis Mai 2021, rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i oresgyn rhai o'r rhwystrau rhag symleiddio gwasanaethau y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

Mae nodyn atgoffa pellach ar gyfer awdurdodau lleol wedi cael ei gynnwys fel rhan o'r Siarter ar gyfer Cynllunio a Chyflawni System Fudd-daliadau Cymru. Byddwn yn cynnal gweithdy yn yr hydref gydag awdurdodau lleol i adolygu sut mae'r arweinlyfr wedi'i wreiddio o fewn awdurdodau lleol, ei ledaenu a'i ddefnyddio.

Wrth ddatblygu'r arweinlyfr, archwiliodd Llywodraeth Cymru y posibilrwydd y gall datblygu canllawiau statudol sicrhau gwell cysondeb rhwng awdurdodau lleol (ac oddi mewn iddynt) wrth weinyddu budd-daliadau yng Nghymru. Dylid nodi, hyd yn oed os caiff canllawiau statudol eu cyhoeddi, y bydd modd i awdurdod cyhoeddus wyro oddi wrth y canllawiau fel arfer os bydd yn rhesymol gwneud hynny. Felly, yn gyffredinol, teimlid y byddai'n well cael dull gweithredu mwy cydweithredol gyda llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod y dull gweithredu'n adlewyrchu arferion a gweithdrefnau gweinyddol lleol.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 11

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ddichonoldeb ymestyn meini prawf cymhwysedd ei chynlluniau prawf modd i gefnogi aelwydydd incwm isel gyda chostau byw, i gefnogi'r aelwydydd hynny sydd newydd golli allan. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda'i chanfyddiadau.

Ymateb: Derbyn

Mae'n haws i bobl sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd hawlio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, ond mae'n bwysig pwysleisio bod llawer o daliadau Llywodraeth Cymru heb eu neilltuo i aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd yn unig. Maent ar gael i bob aelwyd incwm isel. Er enghraifft, gall unrhyw un sy'n byw yng Nghymru, sydd dros 16 oed ac sydd mewn angen ariannol wneud cais am gymorth gan Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru. Mae cymorth tuag at filiau'r dreth gyngor ar gael i aelwydydd incwm isel gan Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gall aelwydydd incwm isel hefyd gael cymorth i dalu eu costau gofal iechyd (e.e. triniaeth ddeintyddol gan y GIG, profion llygaid, sbectolau a lensys cyffwrdd.)

Mae Llywodraeth Cymru yn deall ei bod yn bwysig bod gan ei chymorth ariannol faen prawf cymhwysedd clir sy'n dileu'r angen i wneud penderfyniadau yn ôl disgrisiwn. Cadwyd at y dull hwn wrth ddylunio Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf gyda thaliadau ar gael i aelwydydd sy'n derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd i bobl o oedran gweithio. Fodd bynnag, cydnabyddir bod pobl sydd ag incwm uwch na'r trothwy ar gyfer hawlio budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd yn wynebu anawsterau ariannol. Felly, mae'r amrywiaeth o fudd-daliadau cymwys ar gyfer Cynllun Cymorth Tanwydd nesaf Llywodraeth Cymru wedi cael ei hehangu i gynnwys budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd ac mae'n cynnwys pawb sy'n cael budd o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.

Caiff diben a chwmpas iteriad nesaf Rhaglen Cartrefi Clyd eu nodi pan fydd y Senedd yn dychwelyd ar ôl toriad yr haf. Bydd y meini prawf cymhwysedd yn cael eu cynllunio i sicrhau y bydd anheddau domestig y mae angen gwneud gwelliannau effeithlonrwydd ynni iddynt yn gallu cael gafael ar gymorth drwy'r rhaglen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor wrth gynllunio manylion y meini prawf cymhwysedd i sicrhau y rhoddir sylw i'r pwyntiau a godir.

Goblygiadau ariannol – Byddai ymestyn y cynlluniau sy'n dibynnu ar brawf modd i gynnwys mwy o aelwydydd yn arwain at oblygiadau ariannol sylweddol.

Argymhelliad 12

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd ei Grant Atal Digartrefedd yn ôl Disgrisiwn yn helpu i liniaru'r gostyngiad mewn Taliadau Disgrisiwn at Gostau Tai; ac a yw'r swm a wariwyd ar y rhaglen hon yn ddigon i liniaru lefelau is o'r Taliadau Disgrisiwn at Gostau Tai yn llawn.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr er mwyn lliniaru effeithiau diwygiadau lles, gan gynnwys helpu pobl y mae'r cap ar fudd-daliadau, newidiadau i'r lwfans tai lleol a'r dreth ystafell wely yn effeithio arnynt. Gellir defnyddio'r taliadau hyn er mwyn helpu i atal tenantiaid rhag mynd i ôl-ddyledion rhent ac maent yn arbennig o bwysig ar adeg pan fydd pobl yn wynebu argyfwng costau byw.

Yn 2022-23, gwnaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau leihau'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai £2.3 miliwn (neu tua 27%) o gymharu â 2021-22. Roedd hyn yn ychwanegol at ostyngiad o £1.86 miliwn (neu 18%) yn 2021-22 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ystyried yr argyfwng costau byw a'r penderfyniad i rewi cyfraddau'r lwfans tai lleol, ysgrifennodd Gweinidogion Cymru at Lywodraeth y DU i amlinellu ein siom ynghylch y toriadau sylweddol hyn ar adeg pan fyddem wedi disgwyl i'r gyllideb hon gael ei chynyddu mewn ymateb i raddfa'r her sy'n wynebu aelwydydd.

Yn 2021-22, ychwanegodd Llywodraeth Cymru £4.1m at gronfa'r Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai i liniaru'r gostyngiad yn y gyllideb er mwyn cydnabod pwysigrwydd y gronfa hon, yn enwedig yng nghyd-destun COVID-19 a phwysau ariannol eraill ar aelwydydd.

Yn 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £6m yn rhagor i awdurdodau lleol ar gyfer Cronfa Atal Digartrefedd yn ôl Disgresiwn, er mwyn parhau i helpu i liniaru effaith lleihau'r gyllideb ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn dilyn adborth gan awdurdodau lleol, rydym yn darparu'r cyllid dewisol hwn – yn hytrach nag ychwanegu at y Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai eto – er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran sut y gellid ei ddefnyddio, gan gynnwys cefnogi'r rhai nad ydynt yn derbyn budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai.

Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r cyllid hwn a dargedir er mwyn atal a lliniaru digartrefedd, o fewn eu fframwaith a'u rheolau cyfreithiol presennol. Gall hyn gynnwys mesurau ataliol fel cynnig gwarant rhent, talu am ôl-ddyledion rhent fel rhan o becyn gweithredu i gynnal tenantiaeth, yn ogystal ag ychwanegu at eu pot cyllido ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro defnydd awdurdodau lleol o'r cyllid hwn ar y pwynt canol blwyddyn i asesu'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant a ragwelir. Byddwn yn aildosbarthu cyllid yn ôl yr angen er mwyn sicrhau y caiff yr holl arian ei ddefnyddio'n llawn yn ystod y flwyddyn ariannol.

Goblygiadau ariannol – £6m o'r Gyllideb Atal Digartrefedd bresennol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i ddarparu cymorth pellach sy'n gysylltiedig â chostau byw i aelwydydd ar ddechrau blwyddyn ariannol 2023-24, a sut y bydd yn blaenoriaethu cymorth i fynd i'r afael â maint y sefyllfa.

Ymateb: Derbyn

Mae Rhaglen Cartrefi Clyd yn rhoi cymorth a chyngor i bob aelwyd yng Nghymru a hefyd yn rhoi mesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref ar waith ar gyfer aelwydydd cymwys. Disgwylir y caiff iteriad nesaf Rhaglen Cartrefi Clyd ei lansio yn 2023.

Y dyraniad cyllideb cychwynnol yw £35 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2023-24 tuag at wella effeithlonrwydd ynni domestig mewn aelwydydd incwm isel. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i roi cymorth i aelwydydd ar incwm is sy'n ei chael hi'n anodd cynnal cartref clyd am gost fforddiadwy.

Cyn Cyllideb nesaf y DU, byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i wneud mwy ynghylch yr argyfwng costau byw. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at y Canghellor ochr yn ochr â Gweinidogion cyllid y Llywodraethau datganoledig eraill yn amlinellu ystod o fesurau y dylai Llywodraeth y DU eu cefnogi i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, gan gydnabod mai yn nwylo Llywodraeth y DU y mae'r rhan fwyaf o'r dulliau o fynd i'r afael â'r argyfwng.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r gwaith o achredu holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru fel cyflogwyr cyflog byw gwirioneddol, yn enwedig ar gyfer gweithwyr mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn arwain drwy esiampl fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig ac rydym yn achub ar bob cyfle i annog mwy o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ein hymrwymiad i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol – cynnydd yr amcangyfrifir y bydd yn costio £43.2m yn 2022/23 ac sy'n cynrychioli ymrwymiad ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Rydym yn cydnabod y rôl arwain bwysig sydd gan gyrff cyhoeddus fel cyflogwyr, fel llunwyr polisïau ac fel cyllidwyr sefydliadau eraill ac rydym yn parhau i annog gyrff cyhoeddus – y mae gan lawer ohonynt eisoes isafswm cyfraddau cyflog fesul awr sy'n uwch na'r Cyflog Byw Gwirioneddol – i gynllunio ar gyfer taith a fydd yn eu gwneud yn gyflogwyr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig.

Mae'r GIG yng Nghymru eisoes yn gyflogwr cyflog byw. Er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu eu cyflogau eu hunain, mae amryw awdurdodau lleol eisoes wedi dewis bod yn gyflogwyr cyflog byw. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i Cynnal Cymru, fel y corff achredu Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru, i gefnogi ei waith i hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'i fanteision i gyflogwyr, gweithwyr a chymunedau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa wersi y gellir eu dysgu o gynlluniau rheoleiddio gwirfoddol ar gyfer cyflogwyr yn y sector preifat fel compact swyddi cymunedol Bae Caerdydd, a sut y gallai gefnogi'r gwaith o ddyblygu manteision y dull hwn mewn rhannau eraill o Gymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu mentrau lleol a mentrau ar lawr gwlad sy'n hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad sy'n gyson â gwaith teg. Mae gan fentrau lleol rôl bwysig o ran hyrwyddo gwaith teg yn llwyddiannus, lledaenu arferion gorau, a normaleiddio gwaith teg fel arfer nodweddiadol yn hytrach nag arfer eithriadol. Rydym yn awyddus i weld amrywiaeth eang o sefydliadau – partneriaid cymdeithasol, cyflogwyr unigol a chyrrff anllywodraethol – yn chwarae eu rhan i gyfrannu ym mha ffordd bynnag y gallant i hyrwyddo ac annog gwaith teg.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i'r farchnad lafur er mwyn deall yn well y rhesymau y tu ôl i gyfraddau uchel o anweithgarwch economaidd; lefelau tlodi mewn gwaith; ac amgylchiadau'r rheini sy'n nodi eu bod yn hunangyflogedig. Ar ôl cael mewnbwn gan Fwrdd Cynghori'r Gweinidog Economaidd, dylai wedyn ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r goblygiadau hirdymor i economi Cymru.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd data ar y farchnad lafur er mwyn deall materion sy'n berthnasol i economi Cymru. Byddwn yn llunio papur yn crynhoi'r data sydd eisoes ar gael ar y themâu y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad ac yn asesu pa waith ymchwil

pellach i'r farchnad lafur y gellid ei gomisiynu er mwyn gwella ein dealltwriaeth a'n hymateb polisi dilynol. Mae Bwrdd Cyngori'r Gweinidog Economaidd eisoes wedi cael y dasg o ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu economi Cymru, a chydabyddir bod yr argyfwng costau byw yn dwysáu'r heriau hynny.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid cymdeithasol i ystyried beth arall y gellir ei wneud i gefnogi niferoedd cynyddol o weithwyr sy'n profi problemau iechyd meddwl o ganlyniad i bwysau costau byw.

Ymateb: Derbyn

Mae gweithio mewn ffordd adeiladol i fynd i'r afael â heriau fel pwysau costau byw a'r hyn y gellid ei wneud yn ymarferol i gefnogi gweithwyr yn mynd at wraidd ein hymrwymiad i bartneriaeth gymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn annog partneriaid cymdeithasol i gael eitem reolaidd ar yr agenda mewn cyfarfodydd partneriaeth ar bwysau costau byw a'r effaith ar staff i sicrhau deialog reolaidd a pharhaus er mwyn asesu effeithiau tymor hwy posibl ar y cyd.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol mewn undebau llafur i sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â salwch meddwl oherwydd pwysau costau byw eu codi â chyflogwyr cyn gynted â phosibl ac yn annog partneriaid cymdeithasol i ddefnyddio elfennau disgresiynol o'u darpariaethau tâl salwch, fel y digwyddodd mewn rhai meysydd (e.e. y GIG a Llywodraeth Leol) yn achos COVID hir, er mwyn sicrhau na fydd pobl â salwch meddwl yn sgil pwysau costau byw dan anfantais bellach drwy gollu cyflog o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu mentrau cadarnhaol i ledaenu arferion gorau ar draws sectorau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd rhoi argymhellion adroddiadau pwyllgorau'r Senedd ar dlodi tanwydd a dyfodol lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau costau byw a wynebir gan lawer

o weithwyr yng Nghymru, a pha fecanweithiau y bydd yn eu defnyddio i werthuso cynnydd.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym yn rhoi cryn dipyn o gymorth i'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu er mwyn helpu i ddiogelu a chreu swyddi ac felly helpu i fynd i'r afael â'r pwysau costau byw sy'n wynebu llawer o gymunedau yng Nghymru. Rydym yn darparu £116m o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch drwy gydol 2022-23. Mae'r cymorth hwn yn ychwanegol at ein pecyn presennol o ryddhad ardrethi parhaol, sy'n werth £240 miliwn, y mae'r sector manwerthu hefyd yn cael budd ohono. Rydym hefyd yn creu 125,000 o brentisiaethau dros dymor y Senedd hon ac yn buddsoddi £366m dros y tair blynedd nesaf yn y rhaglen prentisiaethau. Bydd llawer o'r prentisiaethau hyn yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Rydym hefyd yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU gan gydnabod mai yn nwylo Llywodraeth y DU y mae'r rhan fwyaf o'r dulliau o fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu ar y cyd â Gweinidogion Cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon at Ganghellor y Trysorlys ar 15 Gorffennaf i nodi rhai o'r meysydd allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt fel rhan o'r paratodau ar gyfer Cyllideb nesaf y DU, gan gynnwys cymorth i fusnesau. Ymhlith y pwyntiau a wnaed yn y llythyr, nodwyd nad yw'r argyfwng costau byw wedi'i ddosbarthu'n gyfartal, ac y dylai'r ffocws fod ar roi cymorth wedi'i dargedu i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf, yn hytrach na lleihau trethi â sylfaen eang.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi cwrdd â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU i drafod sut gall Llywodraeth y DU ddefnyddio'r amrywiaeth o ddulliau sydd ar gael iddi i roi cymorth ehangach i fusnesau, gan gynnwys y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. Hefyd, mae angen mwy o sicrwydd i fusnesau ynghylch cyfeiriad trethi busnes yn y dyfodol a dylai Llywodraeth Cymru gael hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol i gefnogi buddsoddiad.

O ran hamdden a thwristiaeth, mae gan Croeso Cymru raglen reolaidd o waith ymchwil a gwerthuso sy'n gysylltiedig â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae Croeso Cymru yn casglu ac yn dadansoddi data ar amrywiaeth o fesurau cyflenwad a galw i lywio penderfyniadau ac yn cynnal gwerthusiadau annibynnol o gynlluniau buddsoddi sylweddol.

O ran manwerthu, caiff y cynnydd mewn perthynas â rhoi argymhellion y pwyllgor ar waith ei gadarnhau mewn Cynllun Gweithredu sy'n cael ei ddatblygu gyda'r Sector ar ôl cyhoeddi'r Weledigaeth ar gyfer Manwerthu yn gynharach eleni.

Goblygiadau ariannol – Fel uchod.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r dulliau sydd ar gael iddi mewn perthynas â chyflogau ac amodau'r sector cyhoeddus i gynyddu gwaith teg yng Nghymru gan gynnwys: drwy wella tâl salwch pan fydd ei angen ar weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan ddechrau gyda threfniadau tymor hwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol; a chefnogi'r rhai sydd â'r enillion isaf drwy setliadau cyflog.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob dull sydd ar gael iddi i hyrwyddo ac annog gwaith teg ac rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan y sector cyhoeddus datganoledig o ran arwain drwy esiampl a modelu arferion gwaith teg.

Mae gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn gweithredu mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol, lle mae cyflogwyr ac undebau llafur yn gweithio mewn ffordd adeiladol, a lle rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu yn y cyd-destun hwnnw. Mewn perthynas â gofal cymdeithasol, rydym wedi sefydlu'r Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol, sy'n dod â phartneriaid cymdeithasol ynghyd gyda'r nod o archwilio'r camau pellach y gellir eu cymryd i wella amodau gwaith ym maes gofal cymdeithasol.

Goblygiadau ariannol – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynlluniau cadarn i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid drwy'r gaeaf eleni. Dylai hyn gynnwys naill ai ymestyn y gallu i aelwydydd oddi ar y grid gael cymorth drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol neu'r cynllun Talebau Tanwydd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o fesurau cymorth ar waith ar gyfer aelwydydd oddi ar y grid fel rhan o'r dull cyffredinol o fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a'r cynnydd mewn costau ynni y gaeaf hwn. Mae Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru 22/23, y Cynllun Talebau Tanwydd a'r Gronfa Cymorth Dewisol eisoes yn rhoi cymorth i aelwydydd oddi ar y grid sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd. Nid yw cymhwysedd i gael cymorth ariannol drwy'r Gronfa yn dibynnu ar brawf modd ac mae ar gael er mwyn helpu pobl sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol i gael gafael ar gymorth ariannol brys. Rydym wedi ymestyn cymorth y Gronfa i aelwydydd oddi ar y grid drwy gydol yr haf a'r gaeaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023.

Mae cyllideb o £30m wedi cael ei dyrannu ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni domestig mewn cartrefi incwm isel, gan gynnwys eiddo oddi ar y grid, drwy amrywiaeth o raglenni Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol – Dim costau uwch na'r rhai a ddyrannwyd eisoes.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi aelwydydd oddi ar y grid fel yr amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd.

Ymateb: Derbyn

Roedd tystiolaeth a gyhoeddwyd yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2018 yn tynnu sylw at y ffaith bod cartrefi mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn llai effeithlon o ran ynni nag anheddau mewn ardaloedd trefol.

Mae'r heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru yn cael sylw yn y Rhaglen Cartrefi Clyd bresennol. Mae gwersi o'r rhaglen bresennol a'r hyn a ddysgwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn sail i gyfeiriad polisi arfaethedig y rhaglen newydd y disgwylir iddi gael ei lansio yn 2023.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i ystyried rhaglen debyg i'r hybiau cynnes yn Northumberland, a rhoi rhaglen debyg ar waith os yw'n briodol.

Ymateb: Derbyn

Bydd swyddogion yn mynd ati ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i archwilio'r mesurau eraill y gellir eu rhoi ar waith i roi cymorth ychwanegol drwy gydol y gaeaf, gan gynnwys darparu manau cymunedol cynnes er mwyn helpu pobl i gadw'n gynnes dros y misoedd nesaf.

Goblygiadau ariannol – Caiff y gwaith archwilio ei gwblhau o'r cyllidebau presennol.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil fanwl ynghylch y 'premiwm gwledig' ac effeithiau gwahanol y costau cynyddol o fyw mewn cymunedau gwledig a chymunedau trefol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod aelwydydd gwledig yn aml yn wynebu premiwm gwledig sy'n golygu eu bod yn talu mwy nag aelwydydd trefol am nwyddau a gwasanaethau, a hynny'n anghymesur. Nid yw'r argyfwng costau byw wedi newid hyn, er bod pob aelwyd yn gwario mwy o'i hincwm ar hanfodion fel ynni, bwyd a thanwydd.

Ar hyn o bryd, mae'r amcanestyniadau ynghylch effaith yr argyfwng costau byw yn newid bob wythnos. Mae'n bwysig ein bod yn gallu defnyddio gwaith ymchwil sy'n bodoli eisoes fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (sydd wedi helpu i gyhoeddi canllaw ar ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig (Saesneg yn unig) o'r blaen), Arolwg Cenedlaethol Cymru a data sy'n ymwneud yn benodol â pholisi i lywio ein dull o fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng ar aelwydydd sydd mewn sefyllfa fregus.

Byddwn hefyd yn parhau i wneud gwaith ymchwil a dadansoddi ar y profiad gwledig yn ogystal â defnyddio'r data sydd eisoes ar gael fel sail ar gyfer datblygu ein polisïau.

Er enghraifft, fel rhan o'r ymarfer ymgynghori ar iteriad nesaf Rhaglen Cartrefi Clyd, cynhaliwyd gweithdy ymgynghori a oedd yn ystyried materion gwledig yn benodol. Mae'r canfyddiadau'n helpu i lywio iteriad nesaf Rhaglen Cartrefi Clyd. Disgwylir y bydd yn dod i rym yng ngwanwyn 2023.

Yn yr un modd, mae ein penderfyniad i fuddsoddi yng *Nghynllun Talebau Tanwydd a Chronfa Gwres* y Sefydliad Banc Tanwydd yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r defnydd

o ynni mewn ardaloedd gwledig, amcangyfrifon tlodi tanwydd a data daearyddol ar daliadau sefydlog i bobl sy'n defnyddio mesuryddion talu ymlaen llaw yng Ngogledd a De Cymru.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i wneud gwaith ymchwil a dadansoddi gyda chydweithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a allai helpu i wella ein dealltwriaeth o effaith y premiwm gwledig mewn cymunedau gwledig.

Goblygiadau ariannol – Dim

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu rhaglen cyllid cymorth brys, gan ddefnyddio mecanweithiau tebyg i'r rhaglenni cymorth COVID, i helpu'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf drwy'r cyfnod gwaethaf o ran pwysau costau byw. Gallai hyn fod naill ai ar ffurf grantiau, benthyciadau cost isel neu gyfuniad o'r ddau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi *darparu tua £400 miliwn ers mis Tachwedd 2021* er mwyn helpu teuluoedd i ymdopi â'r cynnydd ym miliau'r cartref – gan roi arian yn uniongyrchol ym mhocedi staff a defnyddwyr, sef rhywbeth y gofynnodd sawl rhan o fyd busnes amdano.

Yn 2022-23, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi BBaChau drwy ddarparu £116m o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Byddwn yn parhau i ystyried opsiynau.

Dim ond Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer ariannol i newid y darlun ehangach ac mae angen gweithredu ar frys nawr i gefnogi aelwydydd a busnesau sy'n wynebu ansicrwydd o'r fath.

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i argymhelliad 18, byddwn yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU drwy'r sianeli sefydledig, gan gydnabod mai yn nwylo Llywodraeth y DU y mae'r rhan fwyaf o'r dulliau o fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Goblygiadau ariannol – Er mwyn rhoi unrhyw gymorth busnes ychwanegol sylweddol, byddai angen i gyllid ychwanegol gael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru drwy Lywodraeth y DU, ond byddai hefyd angen ei bwysu a'i fesur yn erbyn mesurau eraill sy'n ofynnol i helpu gyda'r baich o ran costau byw. Cafodd y mesurau a roddwyd ar waith ar gyfer ein hymateb i COVID-19 eu cefnogi gan symiau canlyniadol Barnett ychwanegol sylweddol yn 2020-21 a 2021-22 nad ydynt wedi cael eu hailadrodd yn 2022-23.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi busnesau i fuddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd a fydd yn eu helpu i leihau costau tanwydd ac ynni a lleihau eu hól troed carbon.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad y dylem ystyried helpu busnesau i fuddsoddi mewn arbedion effeithlonrwydd er mwyn iddynt allu gostwng costau tanwydd ac ynni a lleihau eu hól troed carbon. Bydd yr ystyriaeth hon yn cynnwys y cymorth sylweddol rydym eisoes yn ei roi i fusnesau er mwyn iddynt fod yn fwy effeithlon o ran tanwydd.

Rhannwn farn y Pwyllgor (paragraff 98) na ddylai heriau costau byw leihau'r ymdrechion i sicrhau carbon sero net. Fel y mae'r Pwyllgor yn nodi, mae cynyddu costau tanwydd yn cynyddu'r angen i fusnesau fuddsoddi mewn mesurau i hybu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu pŵer adnewyddadwy ar y safle er mwyn cyflawni'r amcanion ategol o leihau costau ariannol ac effeithiau carbon. Felly, byddwn yn ystyried sut i gymhell a chefnogi'r ymyriadau hyn ymhellach er mwyn helpu busnesau i fod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Goblygiadau ariannol – Gall gynnwys defnyddio derbyniadau cyfalaf.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Gweinidog yr Economi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y gwaith o nodi'r cyllid y disgwylir iddo gael ei ddychwelyd o ganlyniad i waith monitro Llywodraeth Cymru ar ôl cwblhau'r cyllid cymorth COVID i fusnesau.

Ymateb: Derbyn

Gan fod cymorth y Gronfa Cadernid Economaidd a chymorth yn sgil COVID-19 yn cael eu darparu dros gyfnod o ddwy flynedd, rydym yn disgwyl i'r gwaith monitro barhau dros gyfnod estynedig. Er mai'r nod a'r disgwyliad yw bod y rhan fwyaf o'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio er mwyn helpu busnesau i oroesi a diogelu swyddi, yn y lleiafrif o achosion lle mae angen adfachu, byddwn yn parhau i baratoi adroddiadau fel rhan o'r set ehangach o fetrigau.

Goblygiadau ariannol – Dim. Mae'r argymhelliad yn ymwneud â monitro ac adrodd ar gyllid.

Argymhelliad 27

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y canlynol

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio rhyddhad ardrethi busnes i gefnogi'r busnesau yr effeithir arnynt fwyaf nes bod chwyddiant yn dychwelyd i lefel sy'n agos at darged Banc Lloegr.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £116m o gymorth ardrethi annomestig wedi'i dargedu i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch drwy gydol 2022-23. Mae'r cymorth hwn yn ychwanegol at ein pecyn presennol o ryddhad ardrethi parhaol sy'n werth £240 miliwn. O ganlyniad i'n cynlluniau rhyddhad, mae mwy na hanner y sylfaen drethu ardrethi annomestig yn cael budd o ryddhad llawn yn 2022-23, wedi'i ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae dyletswydd arnom hefyd i sicrhau sefydlogrwydd cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol, sydd o fudd i bob un ohonom, lle y bydd pwysau chwyddiant uwch hefyd yn cael ei deimlo. Caiff yr holl refereniw a godir drwy ardrethi annomestig yng Nghymru ei roi i lywodraeth leol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol.

Yn 2021-22 a 2022-23, penderfynodd Llywodraeth Cymru rewi'r lluosydd ardrethi annomestig. Roedd hyn er mwyn atal cynnydd mewn biliau ardrethi i drethdalwyr sydd â rhwymedigaeth weddilliol, ar ôl cymhwyso unrhyw ryddhad, a rhoi cymorth parhaus i bob busnes yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Daw'r ailbrisiad ardrethi annomestig nesaf yng Nghymru i rym ar 1 Ebrill 2023 a bydd yn seiliedig ar werth eiddo ar 1 Ebrill 2021. Gwnaethom symud y dyddiad ailbrisiad i 2023 oherwydd y pandemig: mae hyn yn golygu y bydd y gwerthoedd ardrethol y mae biliau ardrethi'n seiliedig arnynt yn adlewyrchu effaith COVID-19 yn well. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd y newidiadau i werth ardrethol o ganlyniad i ailbrisiad mis Ebrill 2023.

Caiff hereditamentau annomestig eu hailbrisiad'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru gan Asiantaeth y Swyddfa Brisiad (VOA). Bydd VOA yn cyhoeddi rhestr ardrethol newydd ar ffurf drafft erbyn diwedd y flwyddyn hon. Yn dilyn ailbrisiad ardrethi annomestig 2023, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y sylfaen drethu ac yn ystyried a fydd cymorth pontio yn briodol yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol – Fel yr amlinellir uchod.